

Eryl Jones-Williams
Cadeirydd, Pwyllgor Craffu Gofal
Cyngor Gwynedd

cynghorydd.eryljones-williams@gwynedd.llyw.cymru

19 Ionawr 2018

Annwyl Cyng. Jones-Williams

Deiseb P-04-564 Adfer Gwlâu i Gleifion, Gwasanaeth Mân Anafiadau ac Uned Pelydr-X i Ysbyty Coffa Ffestiniog

Mae Pwyllgor Deisebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi bod yn ystyried y ddeiseb uchod ers 2014.

Ddydd Llun 22 Ionawr byddwn yn cyhoeddi adroddiad byr yn crynhoi ystyriaeth y Pwyllgor o'r ddeiseb. Fe welwch gopi ynghlwm.

Rydym yn cydnabod bod cryn amser wedi mynd heibio ers y newidiadau a arweiniodd at y ddeiseb, yn ogystal â'r ffaith bod Canolfan Goffa Ffestiniog newydd wedi agor yn ddiweddar ar safle'r Ysbyty Coffa. Rydym hefyd yn ymwybodol bod Pwyllgor Craffu Gofal Cyngor Gwynedd wedi cynhyrchu nifer o argymhellion yn ddiweddar mewn perthynas â'r ddarpariaeth iechyd yn ardal Blaenau Ffestiniog, y cyfeiriwn atynt yn yr adroddiad. O ganlyniad, credwn fod hon yn adeg briodol i ystyried y dystiolaeth a gawsom ar y ddeiseb hon.

Rydym wedi dod i ddau gasgliad fel rhan o'r adroddiad hwn a byddem yn croesawu unrhyw farn sydd gennych mewn ymateb i'r rhain. Byddwn yn ystyried unrhyw ymatebion a dderbyniwyd ac unrhyw gamau pellach y gallem eu cymryd ar




y ddeiseb yn ein cyfarfod ar 13 Mawrth 2018. Felly, byddem yn croesawu unrhyw sylwadau erbyn **28 Chwefror**.

Mae rhagor o wybodaeth am y ddeiseb hon, gan gynnwys gohebiaeth gysylltiedig a chamau gweithredu y cytunwyd arnynt, ar gael ar y wefan yn:

<http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?Id=10060>

Fel arall, cysylltwch â thîm clericio'r Pwyllgor yn SeneddDeisebau@cynulliad.cymru neu ar 0300 200 6379.

Yn gywir



David J Rowlands AC
Cadeirydd

